# Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

**Adroddiad i'r Cynulliad**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi ardaloedd daearyddol y pwyllgorau ac mae hefyd yn datgan eu cylch gwaith.

1.2 Yn ystod ei flwyddyn gyntaf cadeiriwyd y Pwyllgor gan Gareth Jones. Yr aelodau eraill yw Alison Halford, Ann Jones, Christine Humphreys, John Marek, Tom Middlehurst, Alun Pugh, Rod Richards, Peter Rogers, Janet Ryder, Karen Sinclair, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones. Mae'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn aelod ond nid yw'n mynychu cyfarfodydd oherwydd ei rôl fel Llywydd.

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor wyth o weithiau. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ardal pob awdurdod unedol yn y Gogledd.

## 2. Cylch Gwaith a'r Dull o Weithio

2.1 Disgwylir i'r Pwyllgorau Rhanbarth gynnig cyngor ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, ar effaith polisïau yn y rhanbarthau hynny ac ar waith y cyrff cyhoeddus yno.

2.2 Yn ei gyfarfod cyntaf cytunodd y Pwyllgor taw ei rôl oedd cynrychioli pobl y Gogledd a rhoi gwybod i'r Cynulliad am eu barn a'u pryderon. Ei dasg fwyaf oedd argyhoeddi pobl, yn enwedig yn y Gogledd Ddwyrain, am berthnasedd y Cynulliad iddynt, a byddai'n bwysig i gyfarfod â chyrff lleol a datblygu perthynas â hwy.

2.3 Wrth sefydlu perthynas â phartneriaid allweddol yn y rhanbarth, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod â llawer o'r prif gyrff statudol, megis yr awdurdodau unedol, yr awdurdodau iechyd a thân, ac wedi datblygu cysylltiadau â Fforwm Economaidd y Gogledd. Ceir rhestr gyflawn o'r cyrff a wahoddwyd i gyfarfod â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn adran 3.

2.4 Mae'r Pwyllgor wedi darganfod ei bod yn fuddiol i gael thema penodol ar gyfer pob cyfarfod. Un o'r manteision yw bod strwythur y cyfarfod yn symlach ac yn denu cynulleidfa fwy penodol.

2.5 Pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn ymgynghori ar faterion pwysig mae'r Pwyllgorau Rhanbarth wedi cymryd rhan drwy gynnal 'sioeau pen ffordd' yn eu rhanbarthau. Yn ystod 1999/2000 cynhaliwyd dau achlysur o'r fath. Roedd y cyntaf yn rhan o'r broses ymgynghorol ynghylch

ariannu Amcan 1, ac fe'i cynhaliwyd ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Roedd yr ail yn rhan o ymgynghoriad y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch ei Strategaeth Datblygu Cynaliadwy.

2.6 Gan amlaf, cynhaliwyd cyfarfodydd mewn swyddfeydd awdurdodau lleol. Mae i hyn ei fanteision a'i anfanteision. Fel arfer gall swyddfeydd cyngor ddarparu cyfarpar cyfieithu a recordio ac yn gyffredinol mae'r swyddfeydd yn hwylus ar gyfer pobl ag anableddau ac o ran y rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn aml, fodd bynnag, mae'r adeiladau'n ffurfiol ac anhyblyg ac nid ydynt yn gweddu bob tro i gyfranogiad gan y cyhoedd. Gobeithir defnyddio rhai mannau eraill ar gyfer cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

2.7 Ar ôl dechrau siomedig, mae nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Gobeithir y bydd y cynnydd yn para wrth i drefniadau cyhoeddusrwydd wella ac wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o'r Pwyllgor. Daeth nifer arbennig o dda ynghyd ar gyfer y cyfarfodydd sioeau pen ffordd ar Amcan 1 a datblygu cynaliadwy.

**3. Y cyfarfodydd hyd yn hyn**

3.1 Cyfarfu'r pwyllgor wyth o weithiau er mis Gorffennaf y llynedd.

| Dyddiad | Lleoliad | Pwnc |
|---|---|---|
| 2 Gorffennaf 1999 | Bae Colwyn | Cyfarfod cychwynnol i drafod trefniadau ymarferol. Gofynnwyd i is-grp anffurfiol ystyried cysylltau rheilffordd gogledd/de. Anfonwyd argynmhelliad cychwynnol o'r is-grwp at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Cyfarfu'r grp hefyd â grp Babties yn gynnar yn eu gwaith. |
| 20 Medi 1999 | Y Rhyl | Cyfarfod sioe ben ffordd ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Amcan 1. Cafwyd cyflwyniadau gan 20 corff ac unigolyn ac ystyriwyd eu sylwadau wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol |
| 8 Hydref 1999 | Wrecsam | Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar y materion allweddol sy'n wynebu Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a Fforwm Economaidd y Gogledd |
| 10 Rhagfyr 1999 | Caernarfon | Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar y materion allweddol sy'n wynebu Awdurdod Tân Gogledd Cymru a'r chwe awdurdod unedol yn y Gogledd |
| 11 Chwefror 2000 | Maentwrog | Sioe ben ffordd ynghylch cynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad. Cafwyd cyflwyniadau a chyfraniadau gan bron 30 corff ac unigolyn ac ystyriwyd y rhain yn ystod yr ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy |

| | | |
|---|---|---|
| 17 Mawrth 2000 | Yr Wyddgrug | Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan BT ynghylch technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y rhanbarth ac oddi wrth Dwristiaeth Gogledd Cymru ynghylch pwysigrwydd twristiaeth i economi'r rhanbarth. Trosglwyddwyd nifer fawr o sylwadau'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud â chynllunio lleol a thwristiaeth i'r is-adran berthnasol o'r Cynulliad. |
| 14 Ebrill 2000 | Llangefni | Bu'r Pwyllgor yn trafod cyflwr yr amgylchedd yn y Gogledd gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Bu 13 o gyrff ac unigolion yn cyfrannu i'r drafodaeth a throsglwyddwyd y sylwadau a'r pryderon a godwyd i staff priodol y Cynulliad. Hefyd, cefnogodd y Pwyllgor alwad ar y Swyddfa'r Post i ddefnyddio Anglesey/Ynys Môn yng nghyfeiriadau post yr ynys |
| 16 Mehefin 2000 | Bangor | Bydd y Pwyllgor yn trafod y cynnydd wrth ddatblygu cynlluniau Amcan 1 yn y Gogledd gyda Swyddfa Gymreig Cronfeydd Ewrop, Grwp Strategaeth Amcan 1 y Gogledd-orllewin a phartneriaethau lleol Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd |

**4. Y rhaglen at y dyfodol**

4.1 Bydd y Pwyllgor yn ethol cadeirydd newydd yn ei gyfarfod nesaf a bydd y Cadeirydd, wrth ymgynghori â'r Aelodau eraill, yn datblygu'r rhaglen waith at y dyfodol. Argymhellwyd y dylid cynnal digwyddiadau 'sioe ben ffordd' er mwyn trafod rhaglen gwella iechyd y rhanbarth, ac fel rhan o'r broses ymgynghori ar 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'.

**5. Casgliad**

5.1 Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn cyflawni rôl bwysig fel cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl y rhanbarth. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf mae wedi ystyried meysydd polisi allweddol megis Amcan 1, trafnidiaeth, twristiaeth, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy a datblygu technoleg gwybodaeth. Mae wedi datblygu cysylltau â phartneriaid allweddol yn y rhanbarth – y Fforwm Economaidd, awdurdodau iechyd a thân ac awdurdodau lleol ac mae wedi cymell mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yn ei gyfarfodydd. Yn ogystal â bod yn gyfle ar gyfer trafodaeth agored a chyhoeddus rhwng Aelodau o'r Cynulliad, gwahanol gyrff a'r cyhoedd, mae'r cyfarfodydd yn cynnig fforwm lle gall pobl gyfarfod, creu cysylltiad a rhannu gwybodaeth. Gobeithiaf y bydd Cadeirydd nesaf y Pwyllgor yn gallu adeiladu ar y cychwyn a wnaethom i ddatblygu proffil y Pwyllgor a'r cysylltiad rhwng ei waith a datblygu polisïau yn y Cynulliad.

**Gareth Jones** **14 Mehefin 2000**
**Cadeirydd**